Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# TAFLEN FFEITHIAU 2: SUT BYDD SEFYDLU'R *COMISIWN ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL* YN EFFEITHIO SEFYDLIADAU ADDYSG BELLACH?

## Beth yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil?

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru, ac yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Bydd y Comisiwn, a fydd yn weithredol yn 2024, yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio, ansawdd a rheoleiddio pob addysg drydyddol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Addysg bellach (AB), gan gynnwys colegau a chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir
- Addysg uwch (AU), gan gynnwys ymchwil ac arloesi
- Addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned
- Prentisiaethau a hyfforddiant.

## Gweledigaeth Strategol

Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn darparu sector Addysg Drydyddol ac Ymchwil fwy ymgysylltiol, rhagorol a theg yng Nghymru sy'n blaenoriaethu buddiannau dysgwyr ac yn cyfrannu at ffyniant cenedlaethol. Rydym am weld system gydgysylltiedig yng Nghymru sy'n hawdd i bob dysgwr ei lywio, sy'n cael ei gwerthfawrogi gan y cyhoedd, yn creu cymdeithas fedrus iawn, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, sy'n cael ei chydnabod yn fyd-eang am addysg, hyfforddiant, ymchwil ac arloesi rhagorol, ac sydd â chenhadaeth ddinesig wrth ei chalon.

Bydd ein dull gweithredu yn galluogi dysgwyr i symud yn ddi-dor o addysg orfodol i addysg drydyddol, gan gyfrannu at ein cenhadaeth genedlaethol ar gyfer diwygio addysg.

## Ansawdd y ddarpariaeth

Bydd y Comisiwn yn sicrhau ac yn hyrwyddo gwelliant yn ansawdd addysg drydyddol, a bydd yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu fframwaith ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd ar draws addysg ôl-orfodol yng Nghymru yn seiliedig ar egwyddorion a rennir.

Bydd hyn yn darparu dull mwy cydlynol o asesu ansawdd, gydag un fframwaith ansawdd sy'n cael ei oruchwylio gan y Comisiwn a gwell cydlynu rhwng Estyn a QAA. Bydd Estyn yn cadw dyletswydd i arolygu addysg bellach a hyfforddiant.

## Cwricwlwm 16–19

Bydd gofyn i'r Comisiwn ffurfio cynnig cwricwlwm lleol a bod yn rhan o'r gwaith o gynllunio a monitro darpariaeth ôl-16 ar draws addysg bellach a hyfforddiant. Nod y diwygiadau ôl-16 yw cefnogi ac adeiladu ar egwyddorion ehangach a dibenion allweddol y Cwricwlwm i Gymru. Bydd ganddo hefyd rôl wrth ddarparu dull di-dor a gwybodus o drosglwyddo a llwybrau gyrfa i ddysgwyr sy'n dechrau addysg a hyfforddiant ôl-16, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru.

Fel rhan o **Genhadaeth ein Cenedl**, bydd y sector yn cael ei gefnogi i helpu dysgwyr i dyfu fel dinasyddion ymgysylltiedig a mentrus, gan gyfrannu at ffyniant a lles cenedlaethol ac unigol.

## Cydweithredu

Er bod enghreifftiau eisoes o arfer gorau o ran cydweithio rhwng darparwyr, bydd gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i hyrwyddo mwy o gydweithio mewn addysg drydyddol. Bydd yn annog darparwyr i gydweithio er budd dysgwyr a busnesau mewn ffordd sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion addysg a hyfforddiant lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

## Cynllunio a chyllido

Bydd gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i sicrhau, cyllido a chynllunio cyfleusterau priodol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i ddysgwyr 16 i 19 oed, gan gynnwys y rhai mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac i'r dysgwyr hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn lleoliadau prif ffrwd. Bydd gan y Comisiwn rôl i'w chwarae wrth asesu digonolrwydd cyfleusterau ar gyfer darpariaeth ADY ar lefel poblogaeth gyffredinol (nid dysgwr unigol).

Yn ogystal, bydd gan y Comisiwn ddyletswyddau statudol i sicrhau, cyllido a chynllunio cyfleusterau ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i ddysgwyr 19 oed a hŷn. Bydd gan y Comisiwn ddyletswyddau newydd i hyrwyddo dysgu gydol oes ac i sicrhau bod addysg oedolion yn cael ei chyllido'n briodol.

Rhagwelir y bydd y Comisiwn yn dod yn gyfrifol am ystod o ffrydiau cyllido sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu addysg bellach, megis cyllid ar gyfer iechyd meddwl a llesiant, dysgu proffesiynol a gwella ansawdd.

## Dysgwyr

Bydd gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i baratoi, ymgynghori a chyhoeddi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. Bwriad y Cod hwn yw sicrhau bod buddiannau dysgwyr yn cael eu cynrychioli a bod dysgwyr yn gallu rhoi eu barn i ddarparwyr am yr addysg y maent yn ei chael a chymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau gan y darparwyr hynny. Bydd angen i sefydliadau addysg bellach gydymffurfio â gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

Efallai y bydd y Comisiwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg bellach lunio Cynllun Diogelu Dysgwyr, sy'n nodi sut y bydd darparwr yn diogelu buddiannau dysgwyr pe bai tarfu ar gwrs neu gwrs yn cau a sut y gallai darparwyr hwyluso trosglwyddo dysgwyr i ddarparwyr eraill.

## Cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol

Bydd gofyn i'r Comisiwn cynnal a chadw cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru. Bydd hyn yn canolbwyntio ar ddarparwyr addysg uwch i ddechrau, gan ddisodli'r drefn oruchwylio reoleiddiol addysg uwch bresennol a weithredir gan CCAUC. Cynigir y bydd angen i sefydliadau addysg bellach sy'n darparu cyrsiau addysg uwch gofrestru i sicrhau bod eu cyrsiau wedi'u dynodi yn awtomatig i gael cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru. Bydd darparwyr addysg bellach a hyfforddiant yn cael eu rheoleiddio'n bennaf drwy'r telerau ac amodau sydd ynghlwm wrth arian grant a dderbynnir gan y Comisiwn. Mae'r Ddeddf yn galluogi ehangu categorïau'r gofrestr i gwmpasu ystod ehangach o addysg drydyddol pe bai angen yn y dyfodol.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49228